Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | | PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MERCHER,<br>14 EBRILL, 2021 am 1.00 o'r gloch yp | | WEDNESDAY,<br>14 APRIL, 2021 at 1.00 p.m. |
| CYFARFOD RHITHIOL | | VIRTUAL MEETING |
| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes<br>01248 752516 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O. Jones **(Cadeirydd/Chair),** Dafydd Roberts

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Nicola Roberts

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Kenneth P Hughes, R.Ll.Jones

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Glyn Haynes **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Ms. Anest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Mr. Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Mrs Llio Johnson-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) a Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

# R H A G L E N

**1** **YMDDIHEURIADAU**

**2** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3** **PARTNERIAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD** (Tudalennau 1 - 14)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

**4** **ADRODDIAD CYNNYDD - PANEL ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION** (Tudalennau 15 - 22)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

**5** **RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 23 - 28)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 14 Ebrill, 2021 |
| **Pwnc:** | Partneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Diweddariad ar gynnydd gwaith y Partneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Gwilym O Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng R Meirion Jones |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Rhys H Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Ffion Edwards Ellis<br>Uwch Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad<br>Prif Seicolegydd Addysgol<br>Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad (Gwynedd a Môn)<br>FfionEllis2@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Amherthnasol |

**1 – Argymhelliad/ion**

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio:

**A1** Nodi:

- Y cynnydd hyd yma gyda gwaith y Bartneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

**A2** Nodi:

- Ymateb y Bartneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad i'r argymhellion a nodwyd gan yr Ymgynghorydd Allanol fel rhan o'r arfarniad allanol diweddar.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor / blaenoriaethau trawsnewid.

Nod: gweithio tuag at Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle bydd teuluoedd yn ffynnu
Amcan 1:

Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir.
Byddwn yn parhau i godi safonau addysg a sicrhau bod gan ein pobl
ifanc y sgiliau cywir ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant.

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

Ar gais y Panel:

1. I ba raddau mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn fodlon â'r gwaith a wnaed gan Y Bartneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad hyd yma?
2. I ba raddau mae'r camau gweithredu a gymerwyd gan y Bartneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad hyd yma yn ddigon cadarn ac a yw cyflymder y gwaith yn briodol?
3. Pa awgrymiadau sydd gan y Pwyllgor i gryfhau ymhellach ar waith y Bartneriaeth?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

Mae'r Gwasanaeth Integredig Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn weithredol ers Medi 2017. Pwrpas y gwasanaeth yw:

- adnabod problemau / anghenion yn gynnar ym mywyd y plentyn a sicrhau ymyrraeth briodol;
- ymyrryd yn gynnar pan fo problemau yn dod i'r golwg;
- gweithio yn fwy integredig ac amlasiantaethol, gan rannu gwybodaeth a chyd-gynllunio'r ddarpariaeth;
- sicrhau fod sgiliau a dealltwriaeth y gweithlu yn cael eu datblygu yn gyson;
- sicrhau cyfathrebu gwell a mwy trefnus gyda'r plant, pobl ifanc a'r teuluoedd.

O ran cyd-destun Deddfwriaethol, bydd Deddfwriaeth newydd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Cymru (2018) yn dod i rym yn raddol o Fedi 2021 ymlaen. Mae'r Cod Terfynol wedi ei gadarnhau yn y Senedd ar Fawrth 23, 2021.

**<u>Rhan 1 - Arfarniad Allanol o'r Gwasanaeth</u>**

Yn ystod mis Ionawr/Chwefror 2020, comisiynwyd Mrs Caroline Rees i gynnal adolygiad o Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Chynhwysiad Môn a Gwynedd. Cynhaliwyd yr adolygiad dros gyfnod o bedair wythnos.

Fel rhan o’r adolygiad, cyfarfu Mrs Rees â nifer o aelodau'r tîm a rhanddeiliaid o ysgolion a'r ALl. Darparwyd adroddiad cynhwysfawr yn amlinellu camau gweithredu. Mae’r isod yn crynhoi’r adroddiad.

**At ei gilydd, mae'r ddarpariaeth ar gyfer ADY a Chynhwysiad yn gryf iawn. Mae'r cryfderau allweddol a ganfuwyd yn cynnwys yr hyn a ganlyn:**

- Mae’r ddogfen strategaeth ei hun yn fanwl ac addysgiadol.
- Mae datblygiad y strategaeth yn dangos arweinyddiaeth gref. Mae gan yr Uwch Reolwr ar gyfer ADY a Chynhwysiad ddealltwriaeth glir iawn o'r hyn sydd angen ei wneud, ac mae'n derbyn cefnogaeth lawn gan y cyfarwyddwyr a'r deiliaid portffolio.
- Mae'r bartneriaeth rhwng Môn a Gwynedd yn darparu manteision amlwg.
- Mae'r strategaeth yn nodi'n glir y canlyniadau a fwriadwyd ganddi.
- Gwnaed cynnydd cryf mewn perthynas â'r rhan fwyaf o'r canlyniadau arfaethedig hyn.
- Un o gryfderau allweddol y canolfannau yw eu bod yn rhan amser a thymor byr.
- Mae rhaglen hyfforddi gadarn wedi cael effaith gadarnhaol ar allu ysgolion i ddiwallu anghenion disgyblion sydd ag amrediad o anghenion.
- Mae'r rhan ADY o'r strategaeth yn gryf iawn.
- Mae timau o Seicolegwyr Addysg, athrawon arbenigol a swyddogion ansawdd yn cydweithio'n agos ac yn adnabod eu hysgolion yn dda. Mae hyn yn gryfder yn y gwasanaeth. Mae ysgolion yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth, y cyngor, yr arweiniad a'r hyfforddiant y maent yn eu derbyn gan y timau o athrawon a'r CCD.
- Mae meini prawf clir ar gyfer cael mynediad at wasanaethau gan dimau canolog a chanolfannau arbenigol fel ei gilydd. Yn gyffredinol, mae ysgolion yn deall y rhain yn dda.
- Mae Môn/Gwynedd wedi gwneud cynnydd cryf wrth baratoi ar gyfer Trawsnewid ADY. Mae'r strategaeth newydd yn rhoi ffocws clir ar gael y disgybl yn y canol. Mae CDU yn ogystal â datganiad gan bob disgybl sydd â datganiad.
- Mae sicrhau ansawdd yr ysgolion yn gryfder yn y strategaeth. Mae'r swyddogion ansawdd yn darparu her gadarn, ond mewn ffordd gefnogol. Gwerthfawrogir hyn gan y penaethiaid.
- Mae penaethiaid yn adrodd bod cefnogaeth i ymddygiad yn y cynradd yn effeithiol ar y cyfan.
- Mae yna strategaeth glir ar gyfer symudiadau a reolir, sy'n cynnwys penaethiaid a swyddogion ALl.
- Mae Llechan Lân yn darparu cefnogaeth effeithiol i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2.
- Mae dysgwyr Pecyn 25 yn adrodd bod yn well gan bob un ohonynt y gefnogaeth unigol a gânt ym Mhecyn 25 yn hytrach na dosbarthiadau mawr yn yr ysgol.
- Roedd y disgyblion a oedd yn cymryd rhan ym Mhecyn 25 y siaradwyd â nhw yn gwybod beth yr oeddent am ei wneud ar ôl gadael Pecyn 25 (mynd i'r coleg neu'r fyddin) ac roeddent yn dilyn cyrsiau a chymwysterau fydd yn caniatáu iddynt gyflawni eu huchelgeisiau. Mae hyn yn gryfder.

**Ymysg y meysydd pwysig ar gyfer datblygu'r Gwasanaeth ymhellach mae:**

- Yr angen i ddatblygu darpariaeth ar gyfer ymddygiad ym mlwyddyn 9 a chyfnod allweddol 4, gan gynnwys model gwell ar gyfer Pecyn 25. Mae cynlluniau ar waith ar gyfer datblygu'r gwasanaeth. Maent wedi eu datblygu ar y cyd gyda'r Penaethiaid Uwchradd, gyda phartneriaeth i ddarparu ar y cyd gyda Gwasanaethau Plant. Mae egwyddorion y cynllun wedi eu rhannu gydag Estyn, ac maent wedi derbyn sylwadau positif o ran symud y cynllun ymlaen erbyn Medi 2021.
- Y defnydd o ddata i olrhain cynnydd y grwpiau ehangach o ddisgyblion, i alluogi swyddogion i werthuso effaith ymyriadau ac i lywio'r cynllunio. Rydym yn gweithio gyda'r Uned Ddata i gryfhau'r agwedd yma.
- Eglurhad o rolau a chyfrifoldebau mewn perthynas â grwpiau eraill a gwell cysondeb rhwng y ddau ALl mewn meysydd lle mae ganddynt wahanol ffyrdd o weithio.
- Datblygu pellach ar y cyfathrebu ag ysgolion i fynd i'r afael â chanfyddiadau.
- Datblygiad strategaeth glir ar gyfer plant cyn-ysgol a dysgwyr ôl-16 sydd ag ADY yng nghyd-destun newid Deddfwriaethol.
- Datblygu pellach ar y cydweithio gydag asiantaethau eraill, gan gynnwys gwasanaethau plant ac iechyd, eto yng nghyd-destun newid Deddfwriaethol. Mae hyn wedi symud ymlaen yn sylweddol dros y 6 mis diwethaf gan i'r Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr benodi Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA) sydd yn rôl Statudol o fewn y Ddeddfwriaeth ADY a Thribiwnlys Cymru (2018).


**<u>Rhan 2 - Cefnogi yn ystod y cyfnod COVID (Mawrth 2020-)</u>**

Mae'r cyfnodau clo ers Mawrth 2020 wedi creu heriau sylweddol i blant a phobl ifanc, ac i'r holl weithlu addysg. Mae ein hystyriaeth o blant a phobl ifanc gydag anghenion wedi bod yn flaenoriaeth yn ystod y cyfnod hwn.


Mae'r Gwasanaeth ADY a Ch wedi adolygu'r model darparu mewn cyfnod byr iawn i ymateb i hyn tros y flwyddyn ddiwethaf. Llaw yn llaw gyda'r cyfnod hwn mae'r ddyletswydd statudol i ddarparu yn unol â Deddf AAA (2002) wedi parhau, a'r gwaith trawsnewid ar gyfer y Ddeddfwriaeth newydd hefyd wedi parhau. Bu hefyd cydweithio cyson rhwng y Gwasanaeth ADY a Ch a Gwasanaethau Plant ac Asiantaethau Iechyd er mwyn cael cydlynedd gyda'r gwaith hwn. Bu i'r wefan dderbyn nifer uchel o drawiadau ('hits') yn ystod y cyfnod clo - Cynifer â 130,700 o ymweliadau ym mis Ebrill 2020. Mae linc i'r wefan wedi ei lleoli ar Hwb Môn.

Mae'r modelau isod yn crynhoi'r ddarpariaeth sydd wedi ei gynnal trwy'r cyfnodau clo yn 2020 a 2021:

## Darpariaeth Tymor yr Haf 2020



**Darpariaeth Tymor yr Hydref a'r Gwanwyn 2020/21:**




Yn ystod Tymor yr Hydref bu i Estyn gynnal Arolwg Thematig o ymateb Awdurdodau Cymru i'r pandemig yng nghyd-destun Dysgwyr Bregus. Bu i'r Gwasanaeth ADY a Ch dderbyn canmoliaeth am y meysydd uchod o ddarparu o fewn yr Adroddiad a gyflwynwyd i'r ALI.

Mae'r gwaith Datrys anghydfod darpariaeth statudol gyda rhieni yn ystod y cyfnod clo wedi sicrhau nad oes apêl Tribiwnlys AAA wedi mynd ymlaen yn ystod y cyfnod er gwaethaf risgiau o gwmpas hyn.

Wrth symud ymlaen i'r cyfnod nesaf byddwn yn adlewyrchu ar y newidiadau mewn darpariaeth sydd wedi hwyluso'r gwaith, ac yn parhau gyda'r rhain.

## Rhan 3 - Crynhoi

Wrth grynhoi cynnydd y Gwasanaeth yng nghyd-destun Cynlluniau Gwella Timau unigol dros y flwyddyn ddiwethaf, Adroddiad yr Arfarniad Allanol, ac Arolwg Thematig Estyn, mae'r canlynol yn amlygu fel prif gryfderau a blaenoriaethau/meysydd datblygu:

**CRYFDERAU:**

- System Cynllun Datblygu Unigol electroneg wedi ei ddatblygu, ac erbyn hyn mewn defnydd gan bob ysgol, yn dilyn cyfnod peilota llwyddiannus. Mae'r system yn hwyluso gwaith yr ysgolion a'r gwasanaeth yn sylweddol. Rydym yn ychwanegu a gwella'r system yn barhaus.
- Prosiect Ysgolion sy'n Meithrin (Nurturing Schools) yn parhau i weithredu ac arddangos canlyniadau positif o fewn y cynradd ac uwchradd.
- Gwaith Gwedd 2 o'r Adolygiad Strategol, sy'n ymwneud â Thrawsnewid Deddfwriaethol, yn gwneud cynnydd da ac yn parhau i sicrhau bod Ynys Môn yn barod am y ddeddfwriaeth ADY newydd ym mis Medi 2020. Yr Awdurdod yn parhau i arloesi o ran paratoadau.

- Strategaeth Hyfforddiant y Gwasanaeth wedi cael ei gosod, a'r hyfforddiant yn cael ei gyflwyno. Hyn yn rhan annatod o swyddogaeth pob tîm erbyn hyn.
- Defnydd o TOMs (Therapy Outcome Measures) yn cael ei ymestyn ymhellach er mwyn gallu adrodd ar gynnydd plant yn ehangach, gan fod dangos cynnydd plant a phobl ifanc sydd ag ADY yn gofyn am ddulliau holistaidd.
- Trefniadau ar gyfer monitro darpariaeth ADY a defnydd adnoddau mewn lle fel rhan o waith rhesymoli defnydd Cyllid ADY. Mae hyn hefyd yn rhan o waith Gwedd 2 sydd yn parhau.
- Nifer tribiwnlysoedd yn parhau yn isel iawn, gyda thribiwnlysoedd sy'n ymwneud â darpariaeth o fewn ysgolion Ynys Môn yn hynod o isel o'i gymharu â'r raddfa genedlaethol o ran yr Awdurdod (h.y. yn cadarnhau bod darpariaeth addas yn cael ei gyflwyno).
- Dangosyddion cynhwysedd ysgolion yn parhau i bwysleisio fod ysgolion Ynys Môn yn hynod o gynhwysol - mae lefel gwaharddiadau, nifer disgyblion sydd mewn darpariaeth amgen, a niferoedd addysg gartref dewisol, a phresenoldeb, yn rhoi darlun cynhwysol iawn o gymharu â graddfeydd cenedlaethol.

**BLAENORIAETHAU AR GYFER Y CYFNOD NESAF:**

- Parhau i gyfrannu i gynllun adfer y cyfnod COVID.
- Gweithredu'r Ddeddfwriaeth ADY o Fedi 2021, byddwn yn ffocysu ar:
  - Ansawdd Cynlluniau Datblygu Unigol, a sicrhau bod y plentyn yn ganolog i'r broses.
  - Cysondeb mewn darpariaeth ysgol, a rôl y Cydlynydd ADY.
  - Cryfhau a symleiddio llwybrau darpariaeth 0-3 oed ac 16-25 oed.
  - Cynlluniau darparu ar gyfer y grwpiau eraill sydd yn newid o ran cyfrifoldeb Awdurdod (e.e. dysgwyr sydd yn cael eu haddysgu adref, dysgwyr sydd mewn sefydliadau annibynnol)
- Parhau gyda'r gwaith o addasu a datblygu'r Ddarpariaeth Cynhwysiad yn yr Uwchradd ar gyfer Medi 2021.
- Bydd y Gwasanaethau hefyd yn parhau i flaenoriaethu:
  - Strategaeth Hyfforddiant Ysgolion a staff
  - Dulliau tracio cynnydd ac effeithiolrwydd ymyraethau o fewn y CDU ar-lein.

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Dim yn berthnasol. |

| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
|---|
| Dim yn berthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| |

| |
|---|
| Cyflwyniad Panel Adolygu Cynnydd |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| |

# Arfarniad Allanol Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad

*External Evaluation ALN and Inclusion Service*

*Arfarnwr/Evaluator: Mrs Caroline Rees*



- 8 diwrnod o ymweliadau dros gyfnod o fis
- 8 days of visits over one month

- Cyfweliadau gyda aelodau o'r tim a Swyddogion yr Awdurdod, Pennaethiaid a CLAAA, ymweliadau a chanolfanau
- Interviews with team members and other LA Officers, Headteachers and SENCOs, visits to Service Centres

- Adroddiad manwl yn amlinellu beth sydd yn gweithio, a meysydd sydd angen eu datblygu
- In depth report outlining what works, and areas for development

# Beth sy'n gweithio? // What's working?

- Deilliannau ac arweinyddiaeth gryf – cynnydd cryf yn erbyn y deilliannau
- Strong Objectives and leadership – strong progress against outcomes

- Rhaglen hyfforddiant gryf – hybu gallu ysgolion i diwallu anghenion dysgwyr gyda ADY
- Strong training programme – develops schools ability to provide for learners with ALN

- Defnydd gwasanaethau arbenigol, e.e. Gwasanaeth Seicoleg Addysgol
- Use of specialist teams, e.g. Educational Psychology Service

- Meini prawf mynediad a gadael clir
- Clear entry and exit criteria

- Cynnydd cryf mewn paratoi at y Ddeddfwriaeth Newydd
- Strong progress in preparing for the new legislation

- ADY yn dangos cryfder clir, Cynhwysiad yn gyffredinol effeithiol
- ALN shows very strong provision, Inclusion is generally effective

# Datblygu Pellach // Further Development


- Datblygu darpariaeth Cynhwysiad Uwchradd, yn enwedig blwyddyn 9 a gwella'r model ar gyfer Bl 10 ac 11
- To develop the provision of Secondary Inclusion provision, especially for Yr 9, and improving the model of provision for Year 10 and 11.

- Datblygu mynediad at ddata lefel uchel er mwyn adnabod anghenion addasu darpariaeth a chynnydd dysgwyr
- To develop the access to high level data in order to identify service needs and learner progress

- Gwella ymwybyddiaeth o rolau o fewn yr awdurdod
- Improve clarification of roles within the authority

- Datblygu strategaeth clir gyda'r blynyddoedd cynnar ac Ol-16 gyda'r gwaith trawsnewid deddfwriaethol, a datblygu cyd-weithio gydag asiantaethau eraill
- Develop a clear strategy for early years and post-16 in the legislation transformation work, and develop joint working with other agencies

# Egwyddorion Anghenion Dysgu Ychwanegol ym Mon // Additional Learning Needs Principles in Anglesey



# Egwyddorion Anghenion Dysgu Ychwanegol ym Mon // Additional Learning Needs Principles in Anglesey



This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 14 Ebrill, 2021 |
| **Pwnc:** | Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Diweddariad ar gynnydd gwaith y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Gwilym O Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng R Meirion Jones |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Rhys H Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Sioned Rowe, Swyddog Sgriwtini<br>01248 752039<br>SionedRowe@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Amherthnasol |

### 1 – Argymhelliad/ion

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio:

**A1** Nodi:

- Y cynnydd hyd yma gyda gwaith y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion o safbwynt cyflawni ei raglen waith sy'n cynnwys herio cadarn o berfformiad ysgolion unigol.
- Y meysydd gwaith y rhoddwyd sylw iddynt drwy'r trefniadau newydd a gyflwynwyd wrth gysgodi'r Gwasanaeth Dysgu a GwE

**A2** Argymell bod y Pwyllgor yn dod i gasgliad am gadernid gwaith monitro'r Panel hyd yma.

### 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall

Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor / blaenoriaethau trawsnewid. Mae Cynllun y Cyngor yn cynnwys uchelgais i weithio gyda phobl Ynys Môn, eu cymunedau a gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bydd y gwasanaethau gorau posibl yn cael eu darparu a fydd yn gwella ansawdd bywyd pawb ar hyd a lles yr Ynys. Un o 3 nod y Cynllun ydy "creu amodau a fydd yn galluogi pawb i gyrraedd eu potensial llawn." Mae gwaith y Panel yn allweddol i gefnogi ysgolion a'r Cyngor i wireddu'r nod hwnnw.

### 3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

Ar gais y Panel:

1. I ba raddau mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn fodlon â'r gwaith a wnaed gan y Panel hyd yma?
2. A yw'r camau gweithredu a gymerwyd gan y Panel hyd yma yn ddigon cadarn ac a yw cyflymder y gwaith yn briodol?
3. Sut ellir cryfhau ymhellach ar waith y Panel?
4. Pa feysydd eraill y gallai'r Panel eu craffu?

**4 – Cefndir / Cyd-destun**

**1. CYD-DESTUN**

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, bydd Aelodau'n ymwybodol bod craffu wedi datblygu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf drwy waith y 3 phanel sgriwtini. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r cynnydd a wnaed hyd yma mewn perthynas â'r **Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion.**

**1.2 Trefniadau Llywodraethu'r Panel**

Mae trefniadau llywodraethu cadarn mewn sy'n sylfaen i waith y Panel[1] a bwriedir parhau i gynnal cyfarfodydd misol o'r Panel i'r dyfodol. Sefydlwyd proses o adrodd ar gynnydd yn chwarterol i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio gan y Cyng. Gwilym Owen Jones, cadeirydd y Panel.

Erys i aelodaeth y Panel fod fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor yn ystod y chwarter diwethaf[2]:

[1] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 20 Ebrill a 27 Mehefin 2017
[2] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 9 Ebrill, 2019

| Cynghorydd | Pwyllgor Sgriwtini |
|---|---|
| Gwilym O Jones (Cadeirydd y Panel) | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| Margaret M Roberts | |
| Kenneth P Hughes | |
| Vaughan Hughes | |
| | |
| Alun Roberts (Is-gadeirydd) | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| John Arwel Roberts | |
| Richard Griffiths | |
| **Aelod Cyfetholedig o'r Pwyllgorau Sgriwtini** | |
| Mr Keith Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |

**1.3 FFOCWS GWAITH Y PANEL ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION**
Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn cynnwys cyfeiriad at 4 cyfarfod olaf y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion – ac o ganlyniad mae'n cwmpasu'r cyfnod **Tachwedd, 2020→ Mawrth, 2021.**

**1.4 Monitro Safonau Ysgolion Unigol** – Mae'r gwaith i fonitro safonau ysgolion unigol wedi ei hen sefydlu, ac yn parhau i ddatblygu. Yn dilyn trafodaeth a gafwyd ym mis Hydref, 2019 ynghylch y rhaglen ar gyfer monitro safonau mewn ysgolion unigol, gwelwyd tystiolaeth gref o weithredu ar y penderfyniad o ran datblygu'r gwaith craffu ymhellach.

Er hynny, mae'r ffrwd gwaith hon wedi cael ei rhoi i'r neilltu ar hyn o bryd o ganlyniad i'r pandemig, ac mae'r Panel yn bwriadu ailymweld â'r ymweliadau hyn pan fydd yr amodau yn caniatáu. O'r herwydd bydd angen i'r Panel addasu'r modd y mae'n gweithio ac yn craffu ar berfformiad ysgolion unigol, ac mae cwmpas i'r Panel ymgymryd â'r gwaith hwn yn rhithiol dros Teams yn y dyfodol.

**<u>2.0 Ymateb y Cyngor i Covid-19 (Rhan 3): Cefnogaeth i Blant Bregus a Phrosiect Caergybi</u>**

**2.1** Cafwyd adroddiad ar lafar gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, Uwch Reolwr Llesiant ac Uwch Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Amlinellwyd y gefnogaeth arferol a gynhigir i ysgolion a disgyblion a sut y bu i hyn newid yn ystod y cyfnod clo. Ni fu unrhyw lacio yn y gofynion statudol o ran anghenion dysgu ychwanegol, felly roedd rhaid i'r ddarpariaeth barhau oedd yn her sylweddol. Manylwyd ar y camau nesaf fydd y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn eu cymryd sef:

i. Ailgychwyn ymweliadau ysgol
ii. Paratoi at y Ddeddfwriaeth newydd
iii. Darparu hyfforddiant ELSA (Emotional Literacy Support Assistance)
iv. Parhau â'r rhaglen Ysgolion sy'n Meithrin
v. Cydweithio ag Ysgolion Iach Gwynedd i gynnal hyfforddiant colled a galar.
vi. Darparu hyfforddiant amser cylch arbennig ar gyfer cyfnod yn dilyn y clo

**<u>2.2 Darpariaeth Llesiant</u>**
Cafwyd cyflwyniad gan yr Uwch Reolwr Llesiant am y ddarpariaeth llesiant ers cyfnod y pandemig a nodwyd mai'r flaenoriaeth ar ddechrau'r cyfnod clo oedd cefnogi disgyblion

PYD, datblygu Hybiau Gofal effeithiol a chryfhau hyfforddiant proffesiynol a diogelu. Nodwyd sut bu i ddiffiniad y Llywodraeth o blentyn bregus gael ei ddiwygio ar y cyd gan y Gwasanaeth Dysgu a'r Gwasanaeth Plant er mwyn sicrhau darpariaeth i holl blant bregus. Dysgwyd am y Matrics Bregusrwydd Hybiau Gofal a grëwyd er mwyn adnabod y plant mwyaf bregus drwy Teulu Môn a phenaethiaid ysgolion. Nodwyd bod gwaith da wedi deillio o'r cyfnod er enghraifft cryfhau trefniadau diogelu ac adnabod disgyblion yn gynt er mwyn atal niwed, cydgordio gweithio'n amlasiantaethol yn enwedig pan sefydlwyd Hwb Ysgol Uwchradd Caergybi, a chreu system fel bod yr holl asiantaethau yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â'i gilydd. Parheir â'r arfer dda hon hyd yn oed pan ddaw'r pandemig i ben.

**3.0 Adroddiad Cynnydd GwE 2020/21: cefnogi ysgolion yn ystod pandemig Covid 19**

3.1 Cafwyd adroddiad ar lafar gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, Ymgynghorydd Her Ysgolion Uwchradd GwE ac Ymgynghorydd Her Ysgolion Cynradd, GwE. Nodwyd bod yr adroddiad rhanbarthol yn rhoi trosolwg o'r gwaith y mae GwE wedi'i wneud yn ystod y pandemig ar y cyd â'r 6 awdurdod, a fod eu gwaith wedi gorfod addasu yn sgil y pandemig. Nodwyd mai lles dysgwyr a staff yr ysgolion oedd y prif flaenoriaeth yn ystod y cyfnod hwn.

3.2 Amlinellwyd y 5 prif faes y bu i GwE gynorthwyo'r Cyngor a'r Ysgolion unigol gyda :

1. Bu i GwE gefnogi ac uwchlwytho adnoddau cychwynnol ar gyfer dysgu o bell ar Google Classroom.
2. Cefnogi ysgolion ar ddechrau cyfnod clo drwy gadw mewn cysylltiad a pharhau i gefnogi ysgolion pan oedd prinder staff.
3. Lluniwyd canllawiau dysgu o bell ar y cyd â rhanbarthau eraill a modelau effeithiol ar gyfer dysgu o bell.
4. Cydweithio â'r Awdurdod Lleol a chreu polisi ar gyfer pan oedd ysgolion yn ailagor yn nhymor yr haf, a chynorthwyo gydag asesiadau risg ar gyfer y gwahanol sectorau.
5. Dysgu cyfunol- rhannu unedau amlddisgyblaethol i atgyfnerthu sgiliau, a sicrhau arweiniad a chanllawiau i staff ysgolion.

3.3 Rhoddodd Ymgynghorydd Her Ysgolion Cynradd- GwE drosolwg o'r gwaith sydd wedi'i gyflawni yn y sector cynradd, a nododd fod llawer iawn o ddatblygiadau cyffrous a diddorol wedi digwydd ar draws yr Ynys, a bod y bartneriaeth rhwng y Gwasanaeth Dysgu a GwE wedi'i chryfhau ymhellach yn ystod y cyfnod. Treialwyd ffrydio gwersi yn fyw, a chrëwyd gweminarau a rhannwyd arfer dda. Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn colli ei thir, a nifer o adnoddau wedi'u datblygu gan gynnwys fideos o athrawon yn darllen straeon er mwyn cefnogi rhieni di-Gymraeg. Mae'r Unedau Iaith wedi parhau yn weithredol dros y cyfnod.

3.4 Mae'r ysgolion wedi gwneud defnydd effeithiol o'r adnoddau 'Dysgu Carlam' er mwyn cynnig darpariaeth i ddisgyblion allu datblygu eu sgiliau sylfaenol yn llwyddiannus yn dilyn cyfnod o fethu derbyn addysg ffurfiol gyson. O ganlyniad, mae canlyniadau un ysgol yng nghanol y sir yn dangos cynnydd syfrdanol yn gyffredinol mewn sgiliau darllen dros gyfnod byr. I gloi, nodwyd bod pob ysgol gynradd Môn wedi datblygu o ran y dechnoleg ac wedi mireinio eu ffordd o weithio wrth ymateb i'r pandemig.

3.5 Cafwyd cyflwyniad gan Ymgynghorydd Her Ysgolion Uwchradd GwE yn rhoi trosolwg o waith a gweithrediad yr Ysgolion Uwchradd yn ystod y pandemig. Ar ddechrau'r cyfnod clo bu pwyslais sylweddol ar uwchsgilio staff a disgyblion er mwyn dysgu ac addysgu yn effeithiol gan ddefnyddio'r dechnoleg. Cynhaliwyd hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol gan GwE a hefyd gan yr ysgolion eu hunain. Gwelwyd hyblygrwydd yn y modd y darparodd ysgolion addysg gyfunol, gyda rhai yn dewis ffrydio rhai gwersi yn fyw i grwpiau o ddisgyblion; gydag ysgolion eraill wedi defnyddio dull mwy 'cyfunol' - rhai gwersi byw, rhywfaint o ddysgu anghydamserol drwy gyfrwng fideos wedi'u recordio o flaen llaw neu PowerPoint a thasgau drwy'r rhith ddosbarth. Ar y cyfan, mae'r mwyafrif o wersi 'byw' wedi digwydd i flynyddoedd 12 ac 13. Bu i'r 5 ysgol uwchradd addasu i anghenion dysgwyr ac athrawon, a bu i'r Uwch Dimau Rheoli yn yr ysgolion sicrhau bod adborth y disgyblion yn cael eu bwydo i'r cynlluniau ar gyfer dysgu cyfunol.

**3.6 Y Gymraeg**

Datblygwyd adnoddau, llyfrau, straeon a chaneuon ac ati ar gyfer pob cyfnod, a modelau y gellir athrawon eu defnyddio i gynllunio gweithgareddau dysgu o bell. Mae enghreifftiau yn cynnwys tasgau wedi cael eu trosleisio er mwyn i rieni di-Gymraeg ddeall y dasg. Mae Canolfan Cefnogaeth GwE wedi datblygu adran benodol ar gyfer adnoddau Cymraeg, a chredir bod proffil a phwysigrwydd y Gymraeg wedi cynyddu ers cyfnod y pandemig, gyda rhieni ac athrawon yn pryderu am safon yr iaith.

**3.7 Ysgol Arbennig**

Ers y cyfnod clo cyntaf, mae'r sector addysg arbennig yn Ynys Môn wedi ymateb yn llwyddiannus i anghenion y plant a'r pobl ifanc. Mae diwygio'r cwricwlwm a diwygiadau eraill wedi parhau ar gyflymder synhwyrol yn ystod y cyfnod, ac mae'r cynlluniau gwella cyfredol yn adlewyrchu set o ddyheadau gonest a chyraeddadwy yng nghyd-destun effaith y pandemig cyfredol.

**3.8 Camau Nesaf**

Amlinellwyd blaenoriaethau GwE wrth symud ymlaen:

- Bwriedir datblygu sgiliau digidol ymhellach a pharatoi at y cwricwlwm newydd a'r diwygiadau i'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan gefnogi'r ysgolion.
- Darparu cyfuniad o gymorth generig ac unigryw i gefnogi ysgolion ddatblygu dull dysgu cyfunol ymhellach.
- Parheir i rannu adnoddau er mwyn sicrhau bod gofynion statudol yn cael eu bodloni.
- Bydd angen i bob ysgol addasu ac adolygu eu trefniadau monitro a sicrhau ansawdd.
- Darparu rhaglenni datblygu arweinyddiaeth effeithiol ar gyfer athrawon ar bob cam o'u gyrfa.

**4.0 Estyn: Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UCDau i ymateb i COVID-19**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc adroddiad cylch gorchwyl Estyn, gan nodi fod yr adroddiad yn gadarnhaol iawn sy'n nodi fod y Gwasanaeth Dysgu ac ysgolion yr Ynys ar y trywydd cywir. Nodwyd bod yr adroddiad i'w groesawu, ac yn adlewyrchiad positif a theg o waith yr ysgolion a'r Awdurdod.

5.0 **Taith dwy Ysgol Uwchradd ar yr Ynys**

Fel rhan o waith craffu y Panel gwahoddwyd dwy ysgol uwchradd (ar wahân) i drafod dwy daith benodol sef taith ysgol dros gyfnod y pandemig, a thaith wella ynghyd â datblygiadau a heriau perthnasol eraill. Cafwyd cyflwyniadau manwl ac effeithiol gan yr ysgolion gyda chyfle i aelodau y panel gwestiynu a herio fel yn berthnasol. Y bwriad wrth symud ymlaen yw gwahodd y dair ysgol Uwchradd arall o dan yr un drefn.

**6.0 Diweddariad ar Ddatblygiadau Partneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Gwynedd a Môn** (ffocws ar yr adroddiad adolygu gwasanaeth a'r gweithredoedd dilynol)

6.1 Nodwyd y cynhaliodd Ymgynghorydd Allanol arfarniad o effeithiolrwydd y Bartneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Gwynedd a Môn cyn y cyfnod clo, a oedd yn cynnwys ymweld â chanolfannau, cyfarfod y tîm rheoli, staff, a phenaethiaid. Bu i'r arfarniad adnabod arferion da a meysydd i'w datblygu, ac o ganlyniad datblygwyd cynllun gweithredu. Nodwyd mai prif gryfderau'r gwasanaeth oedd deilliannau'r gwasanaeth ac arweinyddiaeth gref, cynnydd yn erbyn deilliannau, hyfforddiant a gynhigir i ysgolion, a defnydd o wasanaethau arbenigol, yn ogystal â chau achosion yn amserol. Nodwyd bod cryfderau amlwg yn perthyn i'r ochr Anghenion Dysgu Ychwanegol, ond bod mwy o elfennau i'w datblygu ar yr ochr Cynhwysiad. Bu i feysydd datblygu gael eu hadnabod sef: angen i addasu'r model darpariaeth er mwyn sicrhau continwwm o gymorth drwy'r Uwchradd, angen mwy o fynediad at ddata lefel uchel, ac angen gweithio ar drawsnewid a throsglwyddo i'r ddeddf newydd. Nodwyd bod y cynllun gweithredu yn weithredol, a bod datblygiadau amlwg i'w gweld yn ddiweddar. Nodwyd y bwriad o sefydlu Uned ABC ym mhob ysgol Uwchradd ar yr Ynys, sy'n cael ei weld fel rhywbeth arloesol gan Estyn.

**7.0 Cefnogaeth ddigidol ar gyfer ysgolion a datblygiadau cyffredinol parthed y Gymraeg**

7.1 Cafwyd cyflwyniad gan yr Uwch Reolwr Cynradd a oedd yn manylu ar y gefnogaeth ddigidol a'r adnoddau sydd ar gael i'r ysgolion ar wefan Hwb Cefnogaeth Ysgolion Môn gan gynnwys canllawiau a pholisïau, gweithdrefnau i archebu prawf Covid, hyfforddiant ar-lein ac adnoddau sy'n hwyluso'r broses dysgu'n rhithiol, yn ogystal â dolenni i wefannau ac adnoddau eraill defnyddiol. Nodwyd bod holiadur wedi'i anfon at yr holl ysgolion yn casglu eu barn am y gefnogaeth sydd wedi'i darparu iddynt ers cyfnod y pandemig, ac y cafwyd adborth hynod o bositif am y wefan yn nodi pa mor ddefnyddiol oedd hi.

7.2 Cyfeiriwyd at y Cynllun Adfer Gwasanaeth sydd yn y broses o gael ei roi at ei gilydd a fydd yn cael ei drafod â'r ysgolion ar ôl gwyliau'r Pasg er mwyn adnabod arferion da fydd angen parhau a hefyd unrhyw welliannau a gwersi i'w dysgu.

**7.3 Y Gymraeg**

7.4 Soniwyd am y gwaith da sy'n cael ei wneud er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn parhau yn rhan ganolog o addysg Môn, a chyfeiriwyd at y Cydlynwyr Iaith Cynradd ac Uwchradd, y ddwy Ganolfan Iaith ar yr Ynys sy'n trochi disgyblion, y cydweithio rhanbarthol sy'n digwydd a hefyd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA). Nodir bod y gwaith o lunio'r cynllun CSGA wedi dechrau, a'i bod yn bellach yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru iddo fod yn gynllun 10 mlynedd. Nodwyd bod 7 deilliant newydd wedi'u hadnabod yn y CSGA. Adroddwyd ar gynnydd y Prosiect Siarter Iaith, gyda gwaith peilot yn cael ei gynnal mewn pedair ysgol ar yr Ynys. Cyfeiriwyd at Gynllun Carlam Adfer y Gymraeg sydd wedi'i sefydlu ar draws 6 awdurdod y Gogledd, gyda gweminarau wedi'u cynllunio ar hyn ar ôl y Pasg.

7.5 Ar gais y Panel, gofynnwyd am gyflwyniad penodol ar y Gymraeg yng nghyfarfod nesaf y Panel.

**8. MATER I'W UWCHGYFEIRIO I'R RHIANT BWYLLGOR EI YSTYRIED**

Cyfeirir y mater a ganlyn er ystyriaeth gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio:
**1.4** Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ddod i gasgliad am gadernid gwaith monitro'r Panel hyd yma.

**6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

Dim yn berthnasol.

**7 – Oblygiadau Ariannol**

Dim yn berthnasol

**8 – Atodiadau**

**9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

Sioned Rowe, Swyddog Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW

**Cyng. Gwilym Owen Jones**
**Cadeirydd y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion**

**Dyddiad:**

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **14 Ebrill, 2021** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2021/22** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Gwilym Owen Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2021/22<br>**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â'r blaenoriaethau corfforaethol sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022 a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor. |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal<br>• Integreiddio<br>• Cydweithio<br>• Cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]** |
| **4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |

| 5 – Cefndir / Cyd-destun |
|---|

**1. Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

**2. Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny
- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2017/2022 a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu

2.4 **Effaith yr Argyfwng presennol ar Raglen Waith y Pwyllgor**

Mae'r cyfnod presennol (**rheoli ymateb argyfwng i'r Pandemig, yr Adfer ac yn raddol dychwelyd i'r Normal Newydd**) yn eithriadol o heriol i'r Cyngor a bob sefydliad cyhoeddus arall drwy Gymru wrth i ni barhau i wynebu heriau'r argyfwng Covid-19, ac mae'n anorfod bod hyn yn cael effaith ar raglen waith y Pwyllgor. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi newid ei ffordd o weithio o ganlyniad i'r argyfwng iechyd byd-eang. Yn ystod cyfnod o argyfwng fel hyn, mae llywodraethu ac atebolrwydd yn allweddol bwysig.

Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn cynnig model sgriwtini penodol yn sgil y pandemig, sydd ar y cyd â Strategaeth Bwyllgorau'r Cyngor yn gymorth i lywio rhaglen waith y Pwyllgor, gweler amlinelliad ohono isod:

i. Ffocws ar nifer llai o faterion allweddol sy'n canolbwyntio ar agweddau sylfaenol bywyd pobl leol ("*life and limb*")
ii. Cynnal briff gwylio dros wasanaethau'r Cyngor, perfformiad a materion ariannol
iii. **Elfennau penodol y Model Craffu:**
    - Trosolwg o ymateb y Cyngor i Covid-19
    - Trosolwg penodol ar faterion sylfaenol bywyd (deddfwriaeth gofal; diogelu plant ac oedolion; iechyd cyhoeddus)
    - Cynnal trosolwg ar faterion cyllidol y Cyngor
    - Gweithredu fel cyfrwng ar gyfer profiadau cymunedol.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2021/22 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 11 Mawrth, 2020

| | |
|---|---|
| | lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:<br>• Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022)<br>• Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini). |

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2021/22 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI Mehefin, 2021→ Tachwedd, 2021**
**[Fersiwn ddyddiedig 06/04/21]**



## Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd

Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| **Mehefin, 2021 (07/06/21)** | **Mehefin, 2021 (15/06/21)** |
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2020/21 |
| | Adroddiad Blynyddol 2020-21 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru (i'w gadarnhau) |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Diweddariad gan Brif Weithredwr BIPBC |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Gorffennaf, 2021 (08/07/21)** | **Gorffennaf, 2021 (dyddiad i'w gadarnhau)** |
| Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020/21 (i'w gadarnhau) | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9)-2020/21 |
| | |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Medi, 2021 (13/09/21)** | **Medi, 2021 (20/09/21)** |
| Monitro Perfformiad Ch1: 2021/22 (i'w gadarnhau) | Diogelu Corfforaethol |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Cynnydd Chwarter 1 2021-22 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (i'w gadarnhau) |
| Monitro Cynnydd: Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Hydref, 2021 (14/10/21)** | **Hydref, 2021 (19/10/21)** |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Tachwedd, 2021 (01/11/21)- Cyllideb 2022/23** | **Tachwedd, 2021 (09/11/21)** |
| Cynigion Drafft Cychwynnol Cyllideb 2022/23 | Adroddiad Blynyddol – Partneriaeth Diogelwch Cymunedol |
| Cynllun Ymgynghori Cyhoeddus ar gyfer Cyllideb 2022/23 | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus- Trefniadau Llywodraethu |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Adroddiad Cynnydd Chwarter 2 (2021-22) Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| **Tachwedd, 2021 (16/11/21)- Ch.2** | |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2021/22 | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | |
| | |

**Eitemau i'w rhaglennu:**

**Trawsnewid Cyfleon Dydd Anableddau Dysgu**

**Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardaloedd Seiriol / Amlwch**

**Cynllun Rheoli Asedau / Man-ddaliadau**